Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Microsoft Teams

28 Medi 2022

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi
Heddlu De Cymru	
Yr Uwch-arolygydd Jason Rees (JR)	Arweinydd yr Heddlu ar gyfer Troseddau Casineb
Carol Woodward (CW)	Pennaeth Sicrwydd ac Arolygu
Y Prif Uwch-arolygydd Dros Dro Martyn Stone (MS)	Pennaeth Cymuned, Partneriaethau a Chydlyniant
Martyn Jones (MJ)	Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Aelodau Partner PALG	
Ian Davey (ID)	StopHateUK
Grace Krause (GK)	Anabledd Dysgu Cymru
Tina Reece (TR)	Cymorth i Ferched Cymru
Jasmine Jones (JJ)	Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Joanne Maksymiuk-King (JMK)	Race Council Cymru
Becca Rosenthal (BR)	Cymorth i Ddioddefwyr
Dave Vice (DV)	Adferiad Recovery
Roisin O'Kelly (ROK)	Platfform
Kate Jones (KJ)	Ffynnu Cymorth i Fenywod
Aelodau Annibynnol PALG	
Alex Drummond (AD) (CADEIRYDD)	Aelod Annibynnol
Tony Esmond (TE)	Aelod Annibynnol
Samar Small (SS)	Aelod Annibynnol
Catherine Doherty (CD)	Aelod Annibynnol

	Eitem	Cynnwys
1.	**Croeso a Chyflwyniadau**	1.1 Croesawodd AD y rhai a oedd yn bresennol a nododd ymddiheuriadau.
2.	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**	2.1 Nododd AD fod gan ddau aelod o'r grŵp yr un blaenlythrennau, sef SK, ac y byddai hyn yn broblem yn y cofnodion – bydd ffordd o wahaniaethu rhyngddynt wrth symud ymlaen. 2.2 Gofynnodd AD am newid y cofnodion blaenorol (Pwynt 7) er mwyn cynnwys y cynnig i bobl allu ysgrifennu at NS ag unrhyw arsylwadau, syniadau neu sylwadau ar y cyflwyniad yn y cyfarfod nad oeddent o bosibl wedi meddwl amdanynt ar y pryd neu y byddai'n well ganddynt eu rhannu ar ôl y drafodaeth.

		2.3 Gwnaeth AD atgoffa'r grŵp fod y cyfarfod yn lle diogel i siarad yn agored ac y croesewir sylwadau ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod bob amser.
3.	Troseddau Casineb – Cyflwyniad, Trafodaeth a Sesiwn Grŵp	3.1 Rhoddodd yr Uwch-arolygydd JR drosolwg o Droseddau Casineb a'r weithdrefn gysylltiedig. Roedd yn cynnwys Taith y Dioddefwr ac ystadegau. 3.2 Esboniodd JR y polisi ar gyfer ymdrin â galwad am wasanaeth. O ganlyniad i natur sensitif achosion a phwysigrwydd ymdrin â dioddefwyr Troseddau Casineb yn brydlon, mae dau opsiwn ar gyfer ymateb ar hyn o bryd – Ymateb Brys (cyrraedd o fewn 15 munud) ac Ymateb nad yw'n Frys (o fewn 60 munud). Mae achosion eithriadol pan fyddwn yn ymateb o fewn 72 awr. 3.3 Esboniodd JR, at ddibenion craffu a goruchwylio, y bydd yr alwad am wasanaeth yn mynd drwy Arolygydd Efydd ar gyfer atgyfeirio at Ringyll ac yna Gwnstabl, sef y swyddog a fydd yn ymdrin â'r achos. Y Cwnstabl hwn fydd y pwynt cyswllt gweledol cyntaf i'r dioddefwr fel arfer. Disgwylir y bydd y swyddog sy'n ymdrin â'r achos yn deall yr amgylchiadau dan sylw, yn gofyn cwestiynau pwysig – fel y dull cysylltu a ffefrir gan y dioddefwr a'r cymorth ehangach y gall fod ei angen arno – yn ogystal â chymryd Camau Gweithredu Cadarnhaol. Mae Camau Gweithredu Cadarnhaol yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol: cofnodi datganiadau, darparu Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ac atgyfeiriadau partner ar ôl nodi natur agored i niwed, cynnig manylion cyswllt a chynnal asesiadau risg. 3.4 Mae ystadegau (2021-2022, Ionawr-Medi) yn dangos bod nifer y Troseddau Casineb y rhoddir gwybod amdanynt wedi gostwng ychydig ar y cyfan. Mae nifer yr adroddiadau ynghylch y nodweddion gwarchodedig canlynol wedi cynyddu: Crefydd, Hunaniaeth Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol. Mae nifer yr adroddiadau ynghylch Anabledd a Hil wedi gostwng. Holwyd am y posibilrwydd nad yw dioddefwyr yn rhoi gwybod am achosion oherwydd problem gydag ymddiriedaeth a hyder neu barodrwydd i gysylltu. Troseddau “lefel is” sy'n gyfrifol am y mwyafrif o Droseddau Casineb o hyd. Ymdrinnir â'r achosion mewn ffordd gadarnhaol, gan roi pwyslais ar anghenion y dioddefwr ynghyd â chosbi'r troseddwr. Gwelwyd gostyngiad mewn canlyniadau cadarnhaol ac ym mhob is-gategori: Cyhuddiadau, Gwŷs, Rhybuddiadau, atgyfeiriadau at y Broses Cyfiawnder Adferol. 3.5 Nododd JR fod y ffaith nad yw dioddefwyr yn cefnogi cyhuddiadau yn broblem fawr ac y byddai'n gwerthfawrogi cyngor ar sut i helpu i gynyddu cefnogaeth. Mae heriau parhaus pellach yn cynnwys disgwyliadau'r dioddefwr o'r System Cyfiawnder Troseddol o gymharu â'r system wirioneddol, atal aildroseddu, cael gafael ar rwydwaith cymorth ehangach a rheoli'r naratif. 3.6 Holodd SS a oedd unrhyw ddata ar ddioddefwyr Troseddau Casineb, yn fwy penodol, nifer y dioddefwyr mynych – mae'n debygol y bydd profiad negyddol yn effeithio ar eu disgwyliadau y tro nesaf y bydd angen rhoi gwybod am achos. Bydd JR yn cael gafael ar y data hyn a nododd fod dioddefwyr mynych yn cael eu blaenoriaeth o fewn y strwythur. CAM GWEITHREDU – JR i gael data ar ddioddefwyr mynych troseddau casineb 3.7 Holodd JJ a oedd y data ar hil a chrefydd yn cael eu pennu gan y dioddefwr o ran a oedd yn teimlo bod yr achos yn drosedd casineb tuag at ei hil neu ei grefydd, a gofynnodd am ddadansoddiad pellach o'r data ar hil oherwydd maint y gronfa ddata er mwyn gweld unrhyw batrymau a datblygu naratif. Atebodd JR gan ddweud fod yr Heddlu yn cael ei arwain gan y dioddefwr o ran sut mae'n dehongli'r drosedd a bod Tîm

		Uniondeb Troseddau yn Heddlu De Cymru sy'n sicrhau bod troseddau sy'n mynd drwy'r broses yn cael eu categoreiddio yn briodol er mwyn sicrhau bod y data mor gywir â phosibl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r dadansoddiad o'r data ar hil a dylai fod wedi'i gwblhau mewn ychydig wythnosau. Mae data a dynnwyd â llaw ar gael ar hyn o bryd. 3.8 Gofynnodd BR am gadarnhad fod yr ystadegau ynghylch Troseddau Casineb yn Droseddau yn hytrach na Digwyddiadau ac a oedd Digwyddiadau yn troi'n Droseddau yn ddiweddarach, ac a fydd canllaw newydd y Coleg Plismona yn peri her barhaus. Cadarnhaodd JR eu bod yn cyfeirio at Droseddau Casineb ac y croesewir canllaw y Coleg Plismona. *Sesiwn Grŵp am 15 munud.* 3.9 Croesawodd AD bawb yn ôl a gofynnodd am arsylwadau. 3.10 Nododd GK ei bod yn bosibl nad yw pobl ag anableddau yn ymwybodol o drosedd pan fydd yn digwydd oherwydd ei bod yn debygol eu bod wedi tyfu i fyny mewn amgylchedd anodd gan beri i'r ffiniau fod yn niwlog. Mae'n bwysig bod pobl yn ymwybodol o'r hyn a ganiateir a'r hyn na chaniateir. Yn ogystal, holodd AD a oedd swyddogion yn rhagweithiol wrth gofnodi achosion o Droseddau Casineb hyd yn oed pan nad oedd y dioddefwr yn ymwybodol bod Trosedd Gasineb wedi digwydd. Nododd JR fod gwaith yn mynd rhagddo ynghylch trefnu gweithdy er mwyn addysgu Swyddogion sut i adnabod Trosedd Gasineb a sut i sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd iddynt. 3.11 Mae angen meithrin ymddiriedaeth hefyd drwy wneud yr Heddlu yn ddiogel gan fod amheuaeth wirioneddol o ran ai'r Heddlu yw'r sefydliad addas i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â grwpiau lleiafrifol. Nododd JR fod hyn yn rhywbeth sy'n peri anhawster i bob Heddlu ac nad oes ateb i'r broblem hon sy'n gweithio ar hyn o bryd. Mae ymgysylltu parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. 3.12 Hefyd, holodd GK beth sydd ar waith i ddioddefwyr o ran diogelwch mewn achosion pan wneir cyhuddiadau yn erbyn pobl sydd ym mywyd dioddefwr o hyd ac ati. Yn ogystal, holodd AD pa ddealltwriaeth a hyfforddiant sydd gan swyddogion mewn perthynas â senario o'r fath. Dywedodd JR, fel rhan o'r llwybr Cyfiawnder Troseddol, y gwneir atgyfeiriadau at wasanaethau partner am gymorth pan fo angen. 3.13 Holodd ID pa mor llwyddiannus oedd swyddogion wrth gadw at y targedau o ran amser ymateb. Dywedodd JR fod galw plismona ehangach sy'n ei gwneud yn anodd cyflawni targedau bob amser, ond bod dyheadau uchel i gyflawni'r targedau hyn. Cynigiodd JR echdynnu ac anfon y data. CAM GWEITHREDU – JR i gael data ar dargedau ymateb ar gyfer troseddau casineb 3.14 Holodd ID am y broses glustnodi. Cadarnhaodd JR fod y broses fel a ganlyn: Ymatebir i'r alwad yn yr ystafell reoli er mwyn deall yr alwad gychwynnol, pennir y radd, cynhelir asesiad risg ar yr alwad, a chaiff swyddog ei anfon drwy Gomander Efydd a'i dagio ar y derfynell. Unwaith y bydd ar y derfynell, mae cyfrifoldeb i weithredu mewn perthynas â'r alwad cyn gynted â phosibl. Mae'r gwaith o oruchwylio'r ymholiad a'r ymchwiliad parhaus yn ymwneud â Rhingyll yn goruchwylio proses sicrhau ansawdd yr ymchwiliad. Bydd swyddogion Troseddau Casineb a glustnodir i bob uned reoli sylfaenol yn adolygu'r digwyddiad ar ôl tua 24 awr.

		3.15 Yn dilyn ymholiad gan ID, cadarnhaodd JR fod data ar Ddigwyddiadau Casineb yn cael eu casglu o hyd. 3.16 Nododd BR nad oes addysg ddigonol i droseddwyr a bod bwlch yn y data ar achosion pan fydd dioddefwyr yn penderfynu peidio â pharhau â'u hachosion a'r rhesymau posibl dros y penderfyniadau hyn. 3.17 Nododd SS er bod y data sydd ar gael yn ddefnyddiol, nid ydynt yn ateb llawer o'r cwestiynau y mae angen i'r Heddlu eu hateb, e.e. y rheswm dros ymddygiad a phrofiadau mynych. Awgrymwyd y dylai'r grŵp ddod o hyd i'r cwestiynau y mae am eu gofyn, canfod pa ddata sydd eu hangen a gwneud cais am y data penodol hynny. Awgrymodd AD fod angen pennu'r gwahaniaeth rhwng hil / ffydd / ethnigrwydd. Dywedodd JR fod bwlch yn y data gan fod y categorïau yn eang pan fydd angen iddynt fod yn fwy eang ac yn fwy diffiniedig. Ychwanegodd HJJ fod gan yr Heddlu Uned Boddhad Dioddefwyr sy'n cynnwys Troseddau Casineb. Fel rhan o hyn, cysylltir â dioddefwyr i ofyn am eu profiadau fel ffordd o gasglu data. Awgrymwyd y gallai'r data hyn gael eu hechdynnu a bod yn werthfawr i'r grŵp. CAM GWEITHREDU – HJJ i ofyn am ddata ar droseddau casineb gan Uned Boddhad Dioddefwyr yr Heddlu 3.18 Holodd KJ a fydd y diweddariad i Niche ym mis Hydref yn caniatáu i swyddogion gofnodi beth oedd ethnigrwydd ac ati y dioddefwr yn ogystal â chanfyddiad y troseddwr o hyn. Dywedodd JR y byddai'n anodd cofnodi'r data hynny ac nad ydynt yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd ond y caiff yr awgrym ei ystyried. Ychwanegodd TE fod addysg i droseddwyr yn ymatebol yn hytrach na rhagweithiol a thynnodd sylw at y cyfle i fwydo hyn i mewn i ysgolion er mwyn addysgu pobl ifanc am Droseddau Casineb mewn partneriaeth â chyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion ynghylch llesiant. Nododd JR fod Swyddogion Cyswllt ag Ysgolion wedi'u gwasgaru ledled ardal yr Heddlu. Holodd AD a oedd cyswllt rhwng yr Heddlu a'r adran addysg ar lefel wleidyddol o ran sut mae'r cwricwlwm addysg yn rhyngwynebu â'r heddlu. Atebodd JR gan ddweud bod Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Ysgolion Cymru Gyfan, a gaiff ei rhedeg gan Faith McCready, bellach yn fyw a chytunodd fod bod yn rhan o amgylchedd yr ysgol yn bwysig iawn ac yn rhywbeth y mae JR yn ei ystyried ar hyn o bryd. 3.19 Diolchodd AD i JR am y cyflwyniad ac am ateb yr holl gwestiynau i safon uchel. Anogodd AD yr aelodau i anfon cwestiynau ar ôl y cyfarfod (at SG) er mwyn sicrhau y caiff lleisiau eu clywed bob amser.
4.	Gwrthderfysgaeth / Rhaglen 'Prevent' – Trafodaeth am gyflwyniad y cyfarfod blaenorol, Llythyr oddi wrth Gadeirydd PALG, Camau nesaf	4.1 Soniodd AD ei bod wedi anfon llythyr at yr Heddlu ar ôl y cyflwyniad yn y cyfarfod diwethaf a gofynnodd i aelodau o'r grŵp rannu eu myfyrdodau a'u harsylwadau er mwn rhannu ymateb unedig. 4.2 Holodd GK a oedd yr Heddlu wedi derbyn yr ymateb ysgrifenedig a anfonwyd – cadarnhaodd AD fod y llythyr wedi'i dderbyn a chytunwyd bod y pwyntiau a godwyd yn ddefnyddiol. Nododd GK fod yr ymateb cyffredinol a'r pwyntiau a godwyd yn bwysig ond bod pryderon ynghylch y ganmoliaeth a roddwyd i'r Heddlu am gael ymgynghorwyr penodol ar gyfer awtistiaeth – roedd dynion ag awtistiaeth yn fwy tebygol o fod yn destun ymchwiliad o dan y gweithdrefnau i atal ymddygiad eithafol/terfysgol. Roedd hyn yn creu

		cysylltiad rhwng ymddygiad eithafol/terfysgol ac awtistiaeth. Dadleuodd GK er eu bod yn fwy tebygol o fod yn destun ymchwiliad, nid oeddent yn fwy tebygol o fod yn eithafwyr neu'n derfysgwyr mewn gwirionedd. Cytunodd AD fod pryder ynghylch y canfyddiad hwn o ddynion awtistig a fydd yn arwain at ffurfio stereoteip. Gofynnodd AD sut y gellir atal hyn. Cytunwyd y dylid addasu'r sylwadau a ysgrifennwyd er mwyn cyd-fynd â'r drafodaeth hon ac i ymchwil gael ei rhannu â GK. 4.3 Nododd AD mai un rhwystredigaeth mewn perthynas â'r cyflwyniad yw nad oedd yn addysgu'r gwrandawyr yn benodol sut mae Prevent yn gweithio yn ymarferol a gofynnodd a oedd gan unrhyw un yn y grŵp brofiad o atgyfeirio drwy raglen Prevent neu'n adnabod unrhyw un sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen. Cynigiodd ID anfon y cofnodion a llythyr at gydweithiwr a fydd yn debygol o gynnig rhywfaint o adborth ar y llythyr. CAM GWEITHREDU - ID i gael sylwadau cydweithiwr ar lythyr AD 4.4 Holodd GK am natur y llythyr oddi wrth y Cadeirydd. Eglurodd AD y bydd dau lythyr yn ddelfrydol: un llythyr oddi wrth y Cadeirydd fel unigolyn ac un llythyr oddi wrth y grŵp ni waeth a yw'r adborth yn wahanol yn y ddau ai peidio. Estynnodd SG y cynnig i dderbyn adborth ar ôl y cyfarfod drwy e-bost ar ôl anfon y llythyr eto ar ôl myfyrio ymhellach.
5.	5. Canlyniadau PALG – Y gwahaniaeth y mae PALG wedi'i wneud dros 5 mlynedd	5.1 Cyflwynodd LJ a HJJ boster â phrif gyflawniadau PALG dros y 5 mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â chofnodi gwallau mewn achosion o Stopio a Chwilio. Nododd LJ pa mor werthfawr yw cael grŵp amrywiol sydd â safbwyntiau gwahanol weithiau o ran osgoi gweithio mewn swigen, a diolchodd i aelodau'r grŵp am gydweithio i graffu ar lefel uchel. Sicrhaodd LJ aelodau'r grŵp fod eu hymdrechion yn cael eu trosglwyddo i'r bobl berthnasol. Cytunwyd y byddai gwaith grŵp PALG yn parhau i gael ei grynhoi mewn fformat hawdd ei ddeall. 5.2 Diolchodd AD i LJ + HJJ am y cyflwyniad a nododd fod y wybodaeth yn ddefnyddiol i gofio'r gwaith a gyflawnwyd yn ogystal ag ysbrydoli aelodau newydd o ran y gwahaniaeth y gall y grŵp barhau i'w wneud yn y dyfodol.
6.	Diweddariadau gan Bartneriaid	6.1 Rhoddodd BR wybod i'r grŵp fod Canolfan Cymorth Casineb Cymru yn cydgysylltu llawer o'r cymorth ynghylch Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a bod calendr digwyddiadau a phecyn cyfryngau cymdeithasol a gaiff eu dosbarthu'n fuan ac anogir y grŵp i gadw llygad am unrhyw ddigwyddiadau a allai fod o ddiddordeb iddynt.
7.	Unrhyw Fusnes Arall	7.1 Gofynnodd AD i'r grŵp awgrymu pynciau trafod. Awgrymodd DV bwnc ynghylch camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl a sut mae'r Heddlu yn cefnogi pobl agored i niwed – a sut y nodir bod pobl yn agored i niwed. 7.2 Gofynnodd SG i bobl anfon awgrymiadau ar ôl y cyfarfod drwy e-bost a gofynnodd am adborth ar y fformat sesiwn grŵp a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfarfod. Roedd y grŵp yn gytûn ar y cyfan fod y fformat hwn yn ddefnyddiol. 7.3 Diolchodd AD i aelodau'r grŵp am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Perchennog
JR i gael data ar ddioddefwyr mynych troseddau casineb	JR
JR i gael data ar dargedau ymateb ar gyfer troseddau casineb	JR
HJJ i ofyn am ddata ar droseddau casineb gan Uned Boddhad Dioddefwyr yr Heddlu	HJJ
ID i gael sylwadau cydweithiwr ar lythyr AD	ID